

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) - DYDD LLUN, 9 CHWEFROR 2026

COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) GYNHALIWDYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN, 9 CHWEFROR 2026 YN 11:00

Presennol

Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

JPD Blundell

HJ David

JH Tildesley MBE

Presennol o bell

RJ Collins  
A Wathan

R J Smith  
AJ Williams

I M Spiller  
E D Winstanley

T Thomas

Cynrychiolydd Cofrestredig

A Clarke – Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D M Hughes a J Llewellyn-Hopkins

Gwahoddedigion:

Y Cynghorydd Martyn Jones

Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuencid

Lindsay Harvey  
Gayle Shenton  
Darren Jones  
Neil Arbery  
Sarah Humphreys  
Becca Avci

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd  
Pennaeth Dysgu  
Rheolwr Grwp – Gwella Ysgolion  
Swyddog Arweiniol (Cymorth I Ysgolion Cynradd)  
Swyddog Arweiniol (Cymorth I Ysgolion Uwchradd)  
Cydlunydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) - DYDD LLUN, 9 CHWEFROR 2026**

**Penaethiaid:**

Chris Jones	Pennaeth, Ysgol Gyfun Pencoed
Edward Jones	Pennaeth, Y Bont Darpariaeth Amgen
Michelle Joyner	Pennaeth, Ysgol Gynradd Llidiard

**Swyddogion:**

Jessica McLellan	Swyddog Craffu
Stephen Griffiths	Swyddog Craffu Dros Dro

**Datganiadau o Fuddiannau**

Y Cyngorydd Heather Griffiths – Personol – Eitem 4 – Gwaith perthynol yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig.

Y Cyngorydd Amanda Williams – Personol – Eitem 4 – Llywodraethwr Cymunedol a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Coety a Llywodraethwr AALI a rhiant disgybl yn Ysgol Brynteg.

**90. Cymeradwyaeth Cofnodion**

Y Penderfyniad Wnaed	<b><u>PENDERFYNWYD:</u></b> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid dyddiedig 24 Tachwedd 2025 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	9 Chwefror 2026

**91. Addysgu a Dysgu**

Y Penderfyniad Wnaed	<b><u>PENDERFYNWYD:</u></b> Ar ôl ystyried yr adroddiad, cyflwyniadau gan Benaethiaid Ysgol Gynradd y Bont a'r Llidiart a Phennaeth a staff Ysgol Gyfun Pencoed, a thrafodaeth fanwl gydag Aelod o'r Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol a'r gofynion am y wybodaeth ychwanegol ganlynol:
----------------------	---

	<p><b>Argymhelliad</b></p> <p>1. <b>Argymhellodd</b> y Pwyllgor ystyried cryfhau'r cysylltiad rhwng y Grŵp Gwella Ysgolion a'r Pwyllgor drwy rannu statws Coch Melyn Gwyrdd ysgolion yn gyfrinachol i'r Aelodau ynghyd â rhagor o wybodaeth am y mecanwaith gwerthuso, er mwyn rhoi sicrwydd am ei effeithiolrwydd.</p> <p><b>Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol</b></p> <p>2. Trafododd y Pwyllgor fod ffocws yr adroddiad ar enghreifftiau o ysgolion sydd â Sbotolau Estyn ac ysgolion sydd rhaid mynd i'r afael ag Argymhellion Estyn er mwyn osgoi mynd i fesurau arbennig a <b>gofynnodd</b> am ddadansoddiad o holl argymhellion Estyn gan gynnwys ysgolion ledled y Sir nad ydynt yn disgyn yn y ddau gategori y canolbwyntiwyd arnynt yn yr adroddiad hwn, er mwyn nodi unrhyw themâu neu dueddiadau.</p> <p>3. <b>Gofynnodd</b> y Pwyllgor am fanylion y broses hunanwerthuso, gan gynnwys cymorth i ysgolion nodi eu blaenoriaethau strategol, yn enwedig yn y cyfnod cyn arolwg Estyn, ac unrhyw broses adolygu rhwng cytuno ar y blaenoriaethau strategol a'u rhoi ar waith.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	9 Chwefror 2026

**92. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 2025-26**

Y Penderfyniad Wnaed	<p><u>PENDERFYNWYD:</u></p> <p>Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 2025-26, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 2025-26 a'r Traciwr Rheoleiddiol a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 2 2025-26 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor ac ystyriodd y dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor a gwnaeth yr argymhellion canlynol.</p> <p><b>Argymhellion</b></p> <p>4. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y statws coch ac oren ac amserlenni'r rhan fwyaf o'r Ymrwymadau yn Amcan Lles 3.4 <i>Moderneiddio Adeiladau Ysgol</i> a thrafododd eu heffaith ar Ymrwymiad Amcan Lles 4.4.2 <i>i ddatblygu cynllun pum mlynedd i ateb y galw cynyddol am wasanaethau cymorth, darpariaeth arbenigol ac ysgolion</i>, gan dynnu sylw at hyd y rhestrau aros</p>
----------------------	--

	<p>yn yr ardal hon a nifer y dysgwyr sy'n parhau i fod ar restrau aros, ac <b>argymhellodd</b> ychwanegu'r materion hyn at Flaenraglen Waith y Pwyllgor.</p> <p>5. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y statws coch parhaus a'r perfformiad gwael yn erbyn y Dangosydd Perfformiad DEFS170 ynghylch canran y cynlluniau datblygu unigol (CDUau) awdurdod lleol newydd a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r system CDU ar-lein ac <b>argymhellodd</b> ychwanegu hyn at Flaenraglen Waith y Pwyllgor.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	9 Chwefror 2026

### 93. Diweddariad Rhaglen Gwaith

Y Penderfyniad Wnaed	<p><b><u>PENDERFYNWYD:</u></b></p> <p>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion uchod, nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B, nod y byddai'r Flaenraglen Waith, fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth, ac ystyried y canlynol mewn perthynas â dau atgyfeiriad:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Atgyfeiriad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol – 23 Hydref 2025.</b></li></ul> <p><b>Argymhellodd</b> y Pwyllgor y dylid ystyried y mater ynghylch nifer yr ysgolion sy'n rhagweld diffyg yn eu cyllideb a maint y diffygion yn rhan o broses pennu'r gyllideb, gan gynnwys gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, ar gyfer 2026-27.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Atgyfeiriad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Gwasanaeth Cymdeithasol, Iechyd a Lles – 6 Tachwedd 2025.</b></li></ul> <p>O ran y pryderon a fynegwyd ynghylch lefel y cyswllt y gall pobl sy'n derbyn addysg gartref ei gael â'r Awdurdod Lleol, <b>argymhellodd</b> y Pwyllgor trefnu sesiwn frifio i'r holl Aelodau yn y lle cyntaf.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	9 Chwefror 2026

**94. Materion Brys**

Y Penderfyniad Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	9 Chwefror 2026

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 13:05.